**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd nos Fawrth 21 Ionawr 2025 am 19:00 drwy Zoom**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Rhys Parry (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Cemlyn Jones, Richard Robinson, Hefin Jones, Berwyn Parry Jones, Beca Brown, Gwynedd Williams, Ann Lawton.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alan Pritchard, Philip Roberts

**Clerc:** Meirion Jones

**1399. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croesi cynnes i bawb i'r cyfarfod

**1400 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1401. Datgan buddiant personol.**

Cynghorydd Hefin Jones ar gyfer eitem 1407 (Cais am grant Eco'r Wyddfa). Yn datgan buddiant rhagfarnllyd ar gyfer y cais yma, ar y sail ble byddai aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol yn dod i gasgliad rhesymol fod y buddiant personol mor arwyddocaol fel y gallai rhagfarnu'r penderfyniad

**1402. I dderbyn cofnodion cyfarfod 17 Rhagfyr 2024**

Derbyniwyd y cofnodion ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1403. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

Dim

**1404. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd**

**1405. I ymateb i eitem 1396 (17 Rhagfyr 2024) ble penderfynwyd gohirio'r ymateb i gyfarfod Ionawr er mwyn gallu darparu ymateb yn unol ac argymhelliad yr Uwch Beiriannydd.**

**Materion Parcio Llanrug -** Cais am waharddau parcio – Cyffordd Ffordd Glanmoelyn a Ffordd Glanffynnon, Llanrug – neu leoliadau eraill. (Cyng Beca Brown).

Yn ôl sylwadau yr Uwch Beiriannydd Traffig, bydd angen ystyried y canlynol.

- Gwir bryder am ddiogelwch a llif traffig (mae rhaid rhoi rhesymeg gyfreithiol gadarn i berwyl hyn).
- A yw'r pryder yn achlysurol neu barhaus.
- A yw'r gwaharddau newydd am greu problem debyg neu waeth mewn ardal gyfagos.
- Effeithlonrwydd y gwaharddau ar ymddygiad gyrwyr.
- Disgwyliadau gorfodaeth yn yr ardal

Nodwyd fod yr eitem yma wedi drosglwyddo o gyfarfod mis Rhagfyr i alluogi aelodau gael amser i ddod i benderfyniad ac i gasglu ymatebion i'w anfon ymlaen at Adain Briffyrdd Cyngor Gwynedd.

Yn dilyn peth trafodaeth ar y mater adnabuwyd y canlynol

a) Mae'r broblem parcio yn bodoli ar adegau penodol e.e ar amser cludo plant i ac o'r ysgol gynradd, ac pan mae gweithgaredd ymlaen yn y cwt band.
b) Sut byddai llinellau melyn yn effeithio ar yrwyr pan maent yn parcio ar hyn o bryd ar y 'Zic Zags' melyn wrth ymyl yr ysgol
c) Nodwyd fod ymgynghoriad traffig ar y gweill
d) Fod angen i yrwyr gymryd cyfrifoldeb dros eu ymddygiad personol a cysidro sut mae eu gweithred yn effeithio ar bobl eraill
e) Ymwybodol fod pryder am barcio oddi fewn i'r ysgol
f) Gwir bryder am y llif traffig
g) Angen ystyried sut byddai'r llinellau melyn yn cael eu plismona
h) Nodwyd fod rhai ceir yn parcio ar y palmentydd sydd yn golygu fod rhai cerddwyr yn gorfod camu allan i'r lon. Yn enwedig rhai rhieni gyda pram.
i) Mynegwyd pryder mai mater o amser fydd hi i rhywun gael ei daro gyda car oherwydd diffyg parcio rhai.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i anfon llythyr at Adran Briffyrdd yn mynegi'r uchod a gyda copi i'r Ysgol fel fod yr ysgol yn ymwybodol fod y cyngor cymuned yn eu cefnogi

**1406. I wrthwynebu codi cyflymder o 20 mya i 30 mya yn Ceunant (Cyng Berwyn Parry Jones)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ei fod yn bosib i rhywun wneud gais at Llywodraeth Cymru i ofyn iddynt ail edrych ar safleoedd ble mae cyflymder o 20mya. Adroddwyd fod cais wedi ei wneud o godi y cyflymder o 20mys i 30 mya ar gyfer ffordd Ceunant. Nodwyd ei fod wedi ymgynghori gyda rhai o drigolion lleol yr ardal a doedd neb yn gytûn i godi'r cyflymder. Gofynnwyd i'r cyngor cymuned i'w drafod a dod i benderfyniad naill ai i gefnogi'r cais neu ei wrthwynebu.

**Penderfynwyd:**

a) Wedi trafodaeth gyda aelodau o'r ardal ar y cyngor cymuned a hwythau wedi ymgysylltu a trigolion lleol, roedd y farn yn unfrydol i wrthwynebu'r cynnig.
b) Y clerc i gyfleu hyn at Llywodraeth Cymru

**1407. I ystyried cais am gymorth ariannol oddiwrth**

**a) Y Sefydliad Coffa**
**b) Eco'r Wyddfa**

**Penderfynwyd:**

a) Cyfrannu £2900 at y Sefydliad Coffa;
b) Cyfrannu £950 tuag at yr Eco

**1408. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y pwyllgor fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 6ed o Ionawr 2025. Ymysg y materion a ystyriwyd oedd

Nod ac amcanion y pwyllgor ar gyfer 2024 / 2025

a) Ymchwilio i lefydd sydd angen mwy o Gennin Pedr ac ymchwilio am safleoedd newydd i'w plannu.
b) Parhau i drefnu dyddiadau casglu sbwriel
c) Parhau a'r trefniadau ar gyfer cystadleuaeth Nadolig 2024
d) Cario allan asesiadau risg ar y meysydd chwarae
e) Cynnal sesiynau hyfforddi ar y diffibriliwr
f) Archwilio ein llwybrau cyhoeddus
g) Creu rheolau ar gyfer ein caeau chwarae
h) Creu mapiau ar gyfer yr ardal yn cynnwys gwybodaeth am yr ardal, lleoliadau biniau, diffibriliwr ayyb
i) Tynnu dau fin sbwriel o'r parc sglefrio a rhoi un yno a gofyn i Gyngor Gwynedd ei ychwanegu at eu trefniadau casglu
j) parhau a'r gystadleuaeth Nadolig
k) Cario allan asesiad risg ar y caeau chwarae, yr offer ac offer y gampfa
l) Trefnu hyfforddiant ar y diffib
m) Rhoi rheolau fyny ar y caeau chwarae
n) edrych fewn i'r posibilrwydd o greu mapiau digidol o'r ardal y clerc i gysylltu a cwmni sydd yn darparu system y fynwent
o) Ystyried darparu cysgodfa bws
p) Ystyried offer ychwanegol i'r caeau chwarae

Adroddwyd fod pob un wedi ei cwblhau ar wahân i:-

- Parhau i drefnu dyddiadau casglu sbwriel

Wedi penderfynu peidio dilyn y drefn bresennol oherwydd argaeledd pobl ynghyd ac ymrwymiadau eraill

- edrych fewn i'r posibilrwydd o greu mapiau digidol o'r ardal y clerc i gysylltu a cwmni sydd yn darparu system y fynwent

  Hwn wedi ei drosglwyddo ar gyfer 2025 / 2026

Adnabuwyd hefyd nod ac amcanion y pwyllgor ar gyfer 2025 / 2026

a) Parhau a'r trefniadau ar gyfer cystadleuaeth Nadolig 2025
b) Cario allan asesiadau risg ar y meysydd chwarae
c) Cynnal sesiynau hyfforddi ar y diffibriliwr
d) Archwilio ein llwybrau cyhoeddus
e) Creu rheolau ar gyfer ein caeau chwarae
f) Creu mapiau ar gyfer yr ardal yn cynnwys gwybodaeth am yr ardal, lleoliadau biniau, diffibriliwr ayyb
g) Tynnu dau fin sbwriel o'r parc sglefrio a rhoi un yno a gofyn i Gyngor Gwynedd ei ychwanegu at eu trefniadau casglu
h) Cario allan asesiad risg ar y caeau chwarae, yr offer ac offer y gampfa
i) edrych fewn i'r posibilrwydd o greu mapiau digidol o'r ardal y clerc i gysylltu a cwmni sydd yn darparu system y fynwent
j) Darparu cysgodfa bws – ger Glyntwrog
k) Offer ychwanegol i'r caeau chwarae – Pwll Moelyn
l) Cyd weithio gyda criw sydd am blannu coed ffrwythau yn Cwm y Glo
m) Darparu goleuadau Nadolig lliw ar gyfer coeden Nadolig Cwm y Glo
n) Cario allan asesiad risg ar goed ar dir y cyngor
o) Darparu dau deiar a plannu blodau ynddynt
p) Unrhyw fater arall yn unol â doethineb y Pwyllgor

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1409. I gymeradwyo offer ar gyfer cae chwarae Pwll Moelyn yn unol a dadansoddiad o ymgynghoriad a gynhaliwyd drwy holiadur gyda plant yr ysgol gynradd ac yn unol a'r arian yn y gyllideb.**

Adroddwyd fod holiadur wedi rhannu gyda'r ysgol gynradd yn ymgysylltu a'r plant i holi pa offer fyddent yn hoffi ei weld yn caea chwarae Pwll Moelyn.

Gyda 92% o'r ymatebion yn gofyn am fwrdd picnic a 57% yn gofyn am offer dringo.

**Penderfynwyd:** Pwrcasu dau fwrdd picnic ar gyfer cae chwarae Pwll Moelyn oddi fewn i'r gyllideb bresennol ac yna'r Pwyllgor Hamdden ystyried casgliadau'r holiadur gyda'r bwriad o ychwanegu offer yn ystod 2025 / 2026

**1410. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent**

Yn absenoldeb Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent, adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones ar ran y cadeirydd y canlynol

Cyfarfod yr is-bwyllgor : 2.1.25 -Trafodwyd/Penderfyniadau (a dilyniant):

a) Codi ffioedd 5% am 2025/6.
b) Cyflwyno cais yn y pwyllgor cyllid i ariannu'r ail ran o waith yn y gofod newydd (i'w cynnwys yn y cyllid am 25/26).
c) Toriad gwair ychwanegol yn y fynwent ym mis Tachwedd 2025 a bod y toriad ychwanegol yn cael ei sefydlu yn fanylion y tendr torri gwair nesaf.
d) Nodwyd bod y blaenoriaethau blynyddol am 24/25 wedi'i chyflawni e.e.. polisi bioamrywiaeth neu ar fin cael eu cyflawni e.e.. adeiladu'r wal a chwblhau uwchraddio cyflwr cofebion (categori un).
e) Mae'r is-bwyllgor wedi adnabod ei flaenoriaethau ar gyfer 2025-26 fel a ganlyn.

I. Parhau a'r drefn asesiadau risg ar y cofebion a'r fynwent (gwaith blynyddol)
II. Parhau i gystadlu yng nghystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn (targed blynyddol)
III. Parhau i fonitro gofod yn y fynwent (gwaith blynyddol).
IV. Cwblhau'r ail ran o waith yn y gofod newydd o'r fynwent.
V. Adolygu rheolau'r fynwent (targed blynyddol)
VI. Ymgyrchu i wellau'r lon i'r fynwent (o'r lon fawr i'r eglwys) trwy lobio Cyngor Gwynedd ag eraill.

Braf oedd derbyn rhodd ariannol yn fis Rhagfyr oddiwrth sawl o Sir Gaer sydd â chysylltiad gyda'r fynwent. Braf hefyd oedd derbyn canmoliaeth ym mis Ionawr am safon y fynwent gan ymgymerwr o du allan i'r ardal.

Cyfarfod nesaf yr is-bwyllgor 13/3/25 am 6.30 y.h. ar lein : prif eitem :adolygu rheolau'r fynwent.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1411. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y Pwyllgor fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 7 Ionawr 2025. Ymysg y materion a drafodwyd oedd

Adolygu a addasu'r gyllideb fel yn briodol
Cymeradwyo cyllideb ar gyfer 2025 / 2026
Argymhelliad o praesept ar gyfer 2025 / 2026 o £100k
Angen symud ymlaen gyda newyddlen ar gyfer 2025
Y Cynghorwyr Rhys Parry a Ann Lawton i barhau i adolygu cynnwys ein gwefan

**1412. I gymeradwyo praesept ar gyfer 2025 / 2026**

Yn unol ac argymhelliad y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau gofynnir i'r cyngor gymeradwyo praesept o £100,000 ar gyfer 2025 / 2026

**Penderfynwyd**: Praesept ar gyfer 2025 / 2026 o £100,000

**1413. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C24/1060/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Adeiladu storfa. Storage building.
**Ymgeisydd:** Mr Gareth Davies
**Cyfeiriad:** Llanrug Outdoor Education Centre Ffordd Bryngwyn, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AP
**Cyfeirnod Grid:** -465740.219620337, 7009827.3864766
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

Daeth y cyfarfod i ben am 20:20

Arwyddwyd

Cadeirydd: Dyddiad: 18 Chwefror 2025